OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 255

Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Rhagdybiaethau Rhagnodedig) (Cymru) 2023

Prisio hereditamentau

2.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i hereditament y byddai'r gwerth ardrethol a ddangosir ar restr ardrethu ar gyfer yr hereditament hwnnw, oni bai am y Rheoliadau hyn, yn cael ei effeithio o ganlyniad i—

(a) deddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth;

(b) darpariaeth nad yw o fewn is-baragraff (a) ond a wneir o dan ddeddfwriaeth unrhyw wlad neu diriogaeth, ac y rhoddir effaith iddi drwy ddeddfwriaeth y wlad neu'r diriogaeth honno;

(c) cyngor neu ganllawiau a roddir gan awdurdod cyhoeddus mewn unrhyw wlad neu diriogaeth;

(d) unrhyw beth a wneir gan berson gyda'r nod o sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw beth yn is-baragraff (a), (b) neu (c), neu unrhyw beth nas gwneir gan berson gyda'r nod hwnnw.

(2) At ddibenion canfod gwerth ardrethol hereditament y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ar gyfer unrhyw ddiwrnod ar 1 Ebrill 2023, neu ar ôl hynny, wrth gymhwyso darpariaethau is-baragraffau (1) i (7) o baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, rhaid rhagdybio, ar y diwrnod hwnnw, nad oedd unrhyw newid i fater perthnasol a oedd i'w briodoli'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddeddfwriaeth, darpariaeth, cyngor, canllawiau neu sicrhau cydymffurfedd y cyfeirir ato yn rheoliad 2(1)(a) i (d), wedi digwydd.

(3) Mae'r rhagdybiaeth yn rheoliad 2(2) i'w chymhwyso hefyd at y dibenion hyn pan fo unrhyw newid o'r fath i fater perthnasol wedi digwydd ar ôl y diwrnod a bennir o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988 ond ar y diwrnod y lluniwyd y rhestr ardrethu neu cyn hynny.

(4) Y materion perthnasol yw—

(a) materion sy'n effeithio ar fwynhad ffisegol o'r hereditament;

(b) dull neu gategori meddiannaeth yr hereditament;

(c) materion nad ydynt yn effeithio ar gyflwr ffisegol yr ardal leol y mae'r hereditament wedi ei leoli ynddi ond sydd er hynny'n bresennol yn ffisegol yno;

(d) defnyddio mangreoedd eraill sydd wedi eu lleoli yn ardal leol yr hereditament, neu feddiannu mangreoedd o'r fath.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "awdurdod cyhoeddus" ("*public authority*") yw corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus;

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

mae "deddfwriaeth ("*legislation*") yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o natur ddeddfwriaethol;

mae i "hereditament" yr ystyr a roddir i "hereditament" gan adran 64 o Ddeddf 1988;

ystyr "rhestr ardrethu" ("*rating list*") yw rhestr ardrethu annomestig leol neu ganolog o dan Ran 3 o Ddeddf 1988.